Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg,
## Practis Deintyddol Marsh a B. Lees

25 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-6475-9


ⓗ Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Introduction ... 2
2. Context ... 3
3. Summary ... 4
4. Findings ... 5
    - Quality of the Patient Experience ... 5
    - Delivery of Safe and Effective Care ... 8
    - Quality of Management and Leadership ... 12
5. Next Steps ... 13
6. Methodology ... 14
    - Appendix A ... 16

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o bractis deintyddol S.Marsh a B.Lees yn 36, Gerddi Victoria, Castell-nedd, SA11 3BH, ar 25 Chwefror 2016.

Edrychodd AGIC ar sut mae deintyddfa S.Marsh a B.Lees yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol S.Marsh a B.Lees yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Castell-nedd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol S.Marsh a B.Lees yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, un hylenydd deintyddol, tair nyrs ddeintyddol gymwysedig, rheolwr y practis (sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig) ac un derbynnydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod practis deintyddol S.Marsh a B.Lees yn darparu safon uchel o ofal deintyddol. Dywedodd y cleifion a ddychwelodd holiaduron AGIC wedi'u cwblhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a'r gofal a ddarperir gan y staff.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda.

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y practis yn annog datblygiad proffesiynol parhaus o'u staff.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.
- Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol i arwain y practis.
- Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion cyfredol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Gwneud trefniadau i sicrhau bod y weithdrefn cwynion ar gael i gynifer o gleifion ag sy'n bosibl.
- Cadw offer deintyddol i leihau croes-heintio.
- Gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.
- Cadw cofnodion o fewn cofnodion deintyddol cleifion.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelso** m dystiolaeth bod y practis hwn yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd sylwadau yn holiaduron cleifion AGIC a dychwelwyd atom yn sôn am ymagweddau cyfeillgar, gofalgar a phroffesiynol bob un o aelodau staff y practis. Darparwyd y gofal mewn modd amserol ac urddasol.

Roedd y practis wedi creu taflen gryno a hawdd ei darllen ar gyfer cleifion, sy'n cyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir a gwybodaeth berthnasol eraill y gallai fod angen ar gleifion. Er y gwelsom hysbysiadau yn arddangos y prosesau cwyno y dylid eu dilyn ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG, roedd yr wybodaeth o holiaduron a dychwelwyd yn dangos nad oedd mwy na hanner o'r cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Rydym wedi argymell y dylai'r **practis gymryd camau i gywiro hyn.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Ar y cyfan, cwblhaodd 21 o gleifion holiadur AGIC. Roedd y cleifion a ymatebodd wedi bod yn defnyddio'r practis rhwng deng mlynedd a hanner can mlynedd. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *'Mae'r gwasanaeth deintyddol a dderbyniais dros 22 o flynyddoedd wedi bod yn rhagorol bob amser.'*
>
> *'Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol ac wir yn helpu i wneud y profiad o fynd at y deintydd mor ddymunol ag sy'n bosibl.'*
>
> *'Gwasanaeth ardderchog ers 1974.'*
>
> 'Mae'r deintyddfa yn parhau i fynd o nerth i nerth. Gwasanaeth bendigedig gan dîm bendigedig.'

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn trin cleifion mewn ffordd gyfeillgar ond proffesiynol. Roedd ganddynt berthynas ddymunol â chleifion yn ystod sgyrsiau wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Dywedodd cleifion wrthym, pe baent yn dymuno siarad yn gyfrinachol, fod ystafell ar gael. Dywedodd pob un eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a roddwyd iddynt. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw

iddynt gael eu trin mewn ffordd barchus ac urddasol bob amser, ac yr oeddent wedi cael croeso cynnes a bod y staff wedi cymryd eu hamser i egluro pethau.

Gofal amserol

Dywedodd y cleifion wrthym mai prin iawn oedd yr adegau pan oeddent yn profi oedi cyn cael eu gweld. Roedd yr ymatebion o fewn holiaduron yn dangos bod y mwyafrif o gleifion yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau ar gyfer triniaeth frys. Gwelsom hysbysiad yn arddangos y rhif ffôn ar gyfer cysylltu y tu allan i oriau ar ddrws blaen yr adeilad. Hefyd, roedd gan y practis gasgliad o daflenni o'r enw 'A Guide to Our Dental Surgery' a oedd yn cynnig cyngor defnyddiol i ddarpar gleifion yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â'r hyn yr oedd y practis yn gallu ei gynnig.

Cadw'n iach

Gwelsom dystiolaeth o holiaduron AGIC bod cleifion wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ac ynghylch hylendid deintyddol da. Gwelsom gyflenwad digonol o daflenni gwybodaeth iechyd Roedd sawl un o'r hysbysfyrddau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch iechyd deintyddol da a sut i'w gynnal. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofal unigol

Roedd atebion o holiaduron cleifion AGIC yn dangos bod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor ynghylch eu triniaeth unigol, a'u bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt a'u bod wedi cael croeso bob amser. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff wedi cymryd amser i wrando arnynt a chynnig cyngor ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwestiynau a allai fod ganddynt. Dywedodd cleifion eu bod nhw'n mwynhau'r amgylchedd cyfeillgar yn y practis.

Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at y practis drwy ramp concrit yng nghefn y practis. Roedd dwy ddeintyddfa gan y practis ar y llawr daear y gellid eu defnyddio gan ddefnyddwyr cadair olwyn. Ble bynnag y bo'n bosibl, i gleifion gydag anawsterau symudedd, roedd y practis yn neilltuo man parcio ac ystyriodd cleifion fod hyn yn ddefnyddiol iawn.

Gwelsom bolisi cwynion a oedd wedi'i arddangos yn y dderbynfa. Roedd y weithdrefn i wneud cwyn hefyd wedi'i nodi yn y daflen 'Practice Guide'. Fodd bynnag, er gwaethaf y camau hyn, gwnaethom nodi o'r holiaduron bod mwy na hanner o'r cleifion yn datgan nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn.

**Yr hyn mae angen ei wella.**

***Dylai'r practis ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth cleifion ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel i gleifion. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cymryd sganiau pelydr-X, defnyddio dillad diogelu personol a chael gwared ar yr holl gynnyrch gwastraff yn ddiogel.**

**Roedd yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion ac wedi cwblhau'r hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd diweddaraf.**

**Fodd bynnag, cafwyd problemau gyda droriau a oedd yn ffitio'n wael a'r llawr yn y ddwy ddeintyddfa, sy'n peri risg posibl i reoli heintiau. Gwelsom ddau gyffur a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad. Roedd problemau hefyd o ran cadw, pecynnu a rhoi dyddiad ar offer.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwelsom fod y practis yn cymryd camau i helpu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau defnydd diogel y dyfeisiau trydanol hyn yn y practis. Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) yn ogystal â gwastraff nad yw'n beryglus (cartref). Gwnaethom edrych ar y llyfr damweiniau a gedwir yn y practis a gwelsom nad oedd unrhyw achosion wedi'u cofnodi. Gwnaethom siarad â rhai o'r staff nyrsio ynglŷn â hyn a dywedon nhw eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch cleifion a dyna pam nad oedd unrhyw achosion wedi'u cofnodi. Gwnaethom nodi bod asesiad risg wedi'i gynnal a bod polisïau ar waith ar gyfer codi a chario ac ar gyfer defnyddio dillad diogelu personol (megis ffedogau, menig tafladwy a gwaith trwm a chyfarpar diogelu llygaid).

Yn gyffredinol, roedd y practis wedi ei gynnal yn weddol dda ac roedd y ddeintyddfa ar y llawr uchaf wedi cael ei hadnewyddu i safon uchel iawn. Eglurodd y staff fod gwelliannau tebyg ar y gweill ar gyfer y ddwy ddeintyddfa arall ar y llawr daear, yr oedd angen eu moderneiddio a'u hailaddurno. Mae angen gosod sêl ar y lloriau yn y ddwy ddeintyddfa hon. Yn neintyddfa 2, roedd y bylchau y tu ôl i gabinetau yn anodd cael mynediad atynt er mwyn eu glanhau. Yn neintyddfa 3, roedd droriau uchaf nad oeddent yn ffitio’n dda yn peri risg o heintiau gan nad oedd hi’n hawdd eu cyrraedd er mwyn eu glanhau.

Yr hyn mae angen ei wella.

***Mae angen gosod sêl ar y lloriau a thrwsio'r blychau y tu ôl i gabinetau.***

Gwnaethom nodi nad oedd yr ystafell ddadheintio i fyny'r grisiau yn cynnwys sinc golchi dwylo. Roedd y staff yn defnyddio'r sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa drws nesaf. Argymhellir sinc golchi dwylo yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1]a dylid mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

***Yr hyn mae angen ei wella:***

***Gosod sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio i fyny'r grisiau.***

Gwelsom fod offer deintyddol yn cael eu cadw'n rhydd mewn droriau, a oedd felly'n cynyddu'r risg o groes-heintio. Mae angen rhoi'r rhain mewn pecynnau, eu selio, a nodi'r dyddiad fel y mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn amlinelli. Yn unol â phroses AGIC, gwnaethom ofyn am gynllun gwella brys gan y practis ynglŷn â'r camau a gymerir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu cadw'n gywir.

***Angen Gwella (Angen Cynllun Gwella Brys)***

***Mae angen i'r practis adolygu sut y mae'n cadw offer sydd wedi'u sterileiddio oherwydd gwelsom nad oeddent yn cael eu cadw mewn pecynnau wedi'u selio a'u dyddio.***

Roedd y practis yn cynnig cynllun gwella brys a chawsom ein sicrhau bod trefniadau addas wedi eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwelliant mae ei angen.

Gwelsom fod diffyg cyfleusterau ar gyfer gwaredu eitemau glanweithiol yn nhoiledau'r practis.

***Yr hyn mae angen ei wella:***

***Mae angen i'r practis ddarparu system gwaredu gwastraff glanweithiol addas yn y toiledau.***

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith i ymateb i argyfwng claf (llewyg). Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd gweithiwr cymorth cyntaf enwebedig yn y practis. Gwelsom fod cyffuriau a llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn lle dan glo a diogel a bod yr holl gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw yn unol â'r

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gofynion lleol. Fodd bynnag, gwelsom fod dau o'r cyffuriau wedi mynd 'heibio eu dyddiad'. Nid oedd unrhyw system ar waith ar gyfer gwirio dyddiadau 'dod i ben' cyffuriau. Ni allem, felly, fod yn sicr na fyddai'r sefyllfa hon yn digwydd eto. Mae rheoli meddyginiaeth yn dda yn gallu helpu i leihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau meddyginiaeth a niwed i gleifion o ganlyniad i hynny. Yn unol â phroses AGIC, gwnaethom ofyn am gynllun gwella brys gan y practis ynglŷn â'r camau a gymerir i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu gwirio a'u hamnewid yn ôl yr angen.

***Angen Gwella (Angen Cynllun Gwella Brys)***

***Gweithredu system ddiogel i sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu ynglŷn â dyddiad dod i ben cyffuriau.***

Darparodd y practis gynllun gwella brys yn ddi-oed a chawsom ein sicrhau fod trefniadau addas wedi eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwelliant roedd ei angen.

O ran gweld polisïau a chontractau mewn perthynas â chynnal a chadw a defnyddio'r offer radiograffeg yn ddiogel, roeddem yn fodlon bod system ddiogel ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio pelydrau-X. Gwelsom fod pob un o'r tri deintydd, yr hylenydd deintyddol a dau o'r nyrsys deintyddol a oedd yn cynorthwyo gyda'r triniaethau radiograffeg wedi cwblhau hyfforddiant yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion a allai fod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith a gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd y practis wedi cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, asesu risg yn y gweithle, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a chadw cofnodion o hanesion meddygol a chymdeithasol cleifion. Dywedwyd wrthym fod y ddau ddeintydd yn archwilio gwaith ei gilydd. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau ynghylch rheoli heintiau a chofnodion, dylai'r practis adolygu ei system archwilio i sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n briodol.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y system archwiliadau yn ddigon cadarn i nodi'r meysydd i'w gwella.***

Gwelsom fod staff y practis yn astudio cyrsiau ar-lein fel modd o barhau eu datblygiad proffesiynol ac roeddem yn eu canmol am hynny.

Dywedodd y staff wrthym fod y perthnasau gweithio hirsefydlog ymhlith y staff yn galluogi sgyrsiau anffurfiol yn ystod yr awr ginio i drafod unrhyw faterion sy’n codi neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella yn y practis.  Gwnaethom drafod â'r staff  manteision cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a manteision cadw cofnodion o'r materion a drafodwyd. Cafodd yr awgrym hwn ei dderbyn mewn modd cadarnhaol a dywedodd y staff eu bod nhw'n hyderus y byddai ffurfioli cyfarfodydd yn gyraeddadwy.

Roedd rheolwr y practis wedi cofrestru ar gyfer cwrs rheoli practis er mwyn datblygu sgiliau rheoli. Gwelsom fod llawer o bolisïau a gweithdrefnau'r practis wedi'u hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf er mwyn rhoi ystyriaeth i ganllawiau a deddfwriaeth sy'n newid. Credem fod hyn yn ffordd effeithiol o hyrwyddo arferion gorau er budd y cleifion a'r staff fel ei gilydd.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bum cofnod claf ar gyfer pob deintydd. Yn gyffredinol, cofnodwyd cyngor gofal iechyd a thriniaeth.  Er hynny, gwelsom fod rhai hepgoriadau yn nodiadau'r cleifion yr oedd angen eu cynnwys. Roedd y rhain yn ymwneud â diweddaru hanesion meddygol, yr angen i gadw cofnod o'r canfyddiadau yn dilyn archwiliadau geneuol ychwanegol, cyngor rhoi'r gorau i ysmygu a gynigiwyd, risgiau o ganser y geg ac, i blant, yr angen i nodi'r adegau pan roddwyd farnais fflworid i amddiffyn dannedd rhag pydru.

***Yr hyn mae angen ei wella:***

***Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff yn hapus iawn yn eu swyddogaethau ac yn gweithio yn y practis ers llawer o flynyddoedd. Ystyriwyd bod newid swydd un o'r nyrsys deintyddol profiadol i fod yn rheolwr practis wedi bod yn fuddiol iawn o ran cynnal y practis o ddydd i ddydd.**

Lleolwyd y practis yn yr un adeilad yng Ngerddi Fictoria ers mwy na phedwar deg o flynyddoedd. Er bod y practis yn cael ei rwystro gan ei ddyluniad a'i strwythur, roedd ymdrechion wedi cael eu gwneud ble bynnag y bo'n bosibl i ddarparu cyfleusterau cyfforddus, diogel a dymunol.

Cyfrifoldeb nyrs ddeintyddol brofiadol a oedd wedi cymryd y swydd reolwr practis oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwnaethom nodi'r camau cadarnhaol a gymerwyd gan y rheolwr i wella datblygiad staff, megis sicrhau bod pob nyrs ddeintyddol yn berchen ar ffeil unigol datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y ffaith bod cyrsiau 'mewnol' a phecynnau dysgu cyfrifiadurol ar gael yn ffordd boblogaidd o gynnal datblygiad proffesiynol ymhlith aelodau staff. Dywedodd rheolwr y practis ei bod hi'n teimlo ei bod hi'n cael ei chefnogi'n dda gan yr holl staff yn y practis.

Pan wnaethom ofyn i weld polisïau penodol, gwelsom fod eu cyflwyniad yn strwythuredig ac mewn trefn. Roedd angen datblygu ambell un o'r rhain ymhellach ac roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith i gyflawni hyn. Gwelsom ddogfennau yn ymwneud â rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff newydd a'r ffyrdd yr oeddent yn cael eu hysbysu am bolisïau a gweithdrefnau yn y practis.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis.  Gwelsom fod cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi derbyn brechiad rhag Hepatitis B.

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda yn y practis a llinellau atebolrwydd clir. Gan fod yr holl staff wedi gweithio gyda'i gilydd am flynyddoedd lawer roedd perthynas dda yn bodoli rhyngddynt.  Roeddent yn hyderus wrth leisio unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda'r uwch ddeintydd a/neu ymhlith ei gilydd. Roedd tystiolaeth o'r berthynas dda ymhlith y staff hefyd wedi ei chrybwyll mewn sgyrsiau a gawsom â'r cleifion a gwnaethom ganmol y staff ar eu hymagwedd broffesiynol a chyfeillgar.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r Cynllun Gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y mae'r canfyddiadau a nodwyd yn  Neintyddfa S.Marsh a B.Lees yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: S. Marsh & B. Lees Dental Practice.

## Dyddiad yr arolygiad:25 Chwefror 2016.

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Dylai'r practis ystyried y ffyrdd y gellir gwneud cleifion yn fwy ymwybodol o'r weithdrefn gwyno. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 6.3 | Trafodwyd ein gweithdrefn gwyno mewn cyfarfod practis diweddar. Mae'r holl aelodau staff yn deall y weithdrefn gwyno ac mae gwybodaeth i gleifion ynghylch cwynion bellach mewn lleoliad amlwg yn y dderbynfa. | S Marsh | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Lloriau i'w selio a bylchau mewn droriau a'r tu ôl i gypyrddau ffeilio cloadwy i'w hatgyweirio.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Defnyddiwyd sêl silicon i selio bylchau rhwng byrddau sgyrtin ac arwynebau llawr. Rydym wedi derbyn dyfynbris am y gwaith ar y cypyrddau ffeilio cloadwy ac fe'i | S Marsh | 1 mis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru 01-05, paragraffau 6.46 i 6.49] | Rheoliad 14(6)<br>Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | cyflawnir cyn gynted â phosib. | | |
| 9 | Gosod sinc ar gyfer ymolchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio i fyny'r grisiau.<br>[WHTM 01-05 paragraff 5.7] | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14(6)<br>Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | Dyluniwyd yr ystafell ddadheintio i fyny'r grisiau yn broffesiynol gan gwmni lleol, sef Cotrells. Rwyf wedi cysylltu â'r dyluniwr a gofyn am esboniad pam nad yw'r dyluniad yn bodloni gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01 05. Rwyf yn disgwyl ymateb. Yn y cyfamser rydym yn defnyddio'r sinc ar gyfer ymolchi dwylo yn yr ystafell gyfagos. | S Marsh | Parhaus |
| 9 | **Yr hyn sydd angen ei wella (sydd angen cynllun gwella ar unwaith)**<br>Rhaid i'r practis adolygu'r modd y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Mae'r gwaith o ail-hyfforddi staff wedi'i gwblhau o ran atgoffa pob aelod o staff o'n polisi ynghylch gweithdrefnau dadheintio, bagio a | S Marsh | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | mae'n storio offerynnau wedi eu sterileiddio am i ni ganfod nad oeddent wedi eu storio mewn pecynnau wedi'u selio na'u dyddio.<br>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 Paragraffau 2.4(j) a 4.26] | 2008<br>Rheoliad 14(4)<br>Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | dyddio'r holl offerynnau er mwyn sicrhau eu bod yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae gennym gwrs croes-heintio ar gyfer pob aelod o staff ym mis Mai. | | |
| 9 | Y practis i ddarparu dulliau gwaredu gwastraff glanweithiol priodol yn y toiledau.<br>[Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992] | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | Rydym wrthi'n trefnu bod bin gwaredu glanweithiol yn cael ei osod yn y toiled i lawr y grisiau. | S Marsh | 1 mis |
| 10 | **Yr hyn sydd angen ei wella (sydd angen cynllun gwella ar unwaith)**<br>System ddiogel er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddyddiadau dod i ben cyffuriau.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.5.3] | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.6 | Mae ein cyffuriau brys wedi cael eu gwirio a'u diweddaru'n briodol . Mae gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau na fydd gennym gyffuriau brys sydd â'u dyddiad wedi dod i ben. | S Marsh | Cwblhawyd |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod y system ar | Rheoliadau | Rydym wedi cysylltu â'r ddeoniaeth leol sydd wrthi'n cynnal archwiliad | S Marsh | 4 mis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer cynnal archwiliadau yn ddigon trylwyr i ganfod meysydd i'w gwella. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14(2)<br>Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 3.3 | croes-heintio. Unwaith mae wedi'i gwblhau, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau. | | Parhaus |
| 11 | Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4] | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 3.5 | Mae'r holl glinigwyr yn y practis wedi adolygu canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac maent wedi defnyddio canllaw Cadw Cofnodion y MFGDP i wneud y newidiadau priodol. Rydym wedi edrych yn benodol ar wybodaeth yn ymwneud â chleifion sy'n ysmygu a chofnodi cyngor ar roi'r gorau i ysmygu a risgiau ysmygu i iechyd y geg.<br><br>Rydym wedi dechrau sganio | S Marsh | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | llythyrau/atgyfeiriadau fel y gellir eu hatodi i ffeil y claf.<br><br>Rydym wedi adolygu'r modd rydym yn ysgrifennu nodiadau o ran cael cydsyniad gan y cleifion a'i gofnodi'n briodol yn y nodiadau. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| - | Dim angen cynllun gwella. | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):....STEVEN MARSH..............................................................**

**Teitl: ....S Marsh & B Lees...............................................................**

**Dyddiad:** .....16/06/2016.......................................................................